

Cerddi plant Dolbadarn

Tomenydd

Tomenydd fel tonnau
wedi rhewi ar y tir;
fel trwynau cychod am i lawr.

Tyfu wnaethan nhw
fesul wagenaid,
malwenna ar draws y moelydd;

mynd yn dewach gyda'r degawdau,
ymestyn yn araf
yn llond eu crwyn caregog;

gwichian y wagen
a'r crynu ar y cledrau
yn deffro'r domen,

cyn tipio'r cyfan;
dwndwr cerrig gwastraff
fel cawod drom

a chwmwl o lwch,
fel 'tai'r domen yn torri gwynt,
yn goron ar bryd arall.

Ein teidiau
fu'n porthi'r anghenfilod hyn.
Heddiw maen nhw'n llonydd,

fel trwynau cychod wedi'u troi ar gyfer y gaeaf,
yn disgwyl yn ofer
am y gwanwyn na ddaw.

(Bl. 5: 6ed Medi 2010)

Baled yr Wyddfa

Eisteddwch i lawr i ni gael dweud
sut ga'dd yr Wyddfa fawr ei gwneud;
gwrandewch, gwrandewch am chwarter awr,
ar hanes erchyll Rhita Gawr.

Roedd Nynio a Peibio (brenhinoedd hyll)
yn cerdded unwaith yn y gwyll,
yn brolio'n wirion, naill i'r llall,
yn dweud rhyw bethau hanner call:

“Fi bia’r awyr , fi bia’r nen
– rheina yw ‘nghaeau uwch dy ben!”
meddai Nynio yn ddigon ffôl,
ond dyma Peibio’n ateb ‘syth nôl:

“A fi bia’r sêr - dyna ‘ngwarthaig i,
yn pori yn dy gaeau di!”
“Wel, ‘chân nhw ddim – sgynnon nhw’ m hawl!”
ac felly aeth y cwbl yn gawl,

y ddau yn ffraeo fel ci a chath,
‘chlywsoch chi ‘rioed ddadl ‘run fath.
Pan oed Nynio a Peibio ‘di cael llond bol,
‘mond un fasa’n gallu setlo’u lol;

y dyn i dorri’r ddadl fawr
oedd brenin Eryri – Rhita Gawr.
Doedd gan y cawr ddim ateb hud –
mi waldiodd bennau’r ddau ynghyd,

a siafio’u barfau yn y man;
dwyn eu nerth, a’u gwneud nhw’n wan.
(Ers talwm, roedd barf yn bwysig iawn –
fel bod â Porsche, neu waled lawn!)

Roedd pob brenin arall yn flin yn awr
ac isio ymladd â Rhita Gawr
(a dweud y gwir, roedd 28!)
ac aethant i Lanbêr yn llwyth.

Ond Rhita oedd yn drech na nhw,
mi gurodd y cyfan, ar fy llw,
a siafio barf pob brenin mawr,
nes ôn nhw’n bentwr ar y llawr

ac yna’u gwnïo’n glogyn hir,
y mwyaf blewog yn y tir –
ond roedd un bwlch bach ynddo fo,
a ‘mond barf Arthur ‘sa’n gwneud y tro.

I gwblhau’r clogyn ar frys,
anfonodd neges draw i’w lys.
Roedd Arthur o’i go pan ddaeth y cais,
mi waeddodd nôl ar dop ei lais,

“Dim ffiars o beryg! Dos yn d’ôl
a duda wrth dy feistr ffôl,
am feiddio gofyn peth mor hy,
mi ddo’i’n ei erbyn hefo’n llul!”

A dyna wnaeth. Aeth pethau'n flêr,
cleddyfau'r ddau yn tasgu sêr,
wrth gwffio'n ffyrnig, troedio'n chwim,
ffeirio ergydion heb ildio dim

Nes i Arthur, gydag ergyd fawr,
lwyddo o'r diwedd i lorio'r cawr,
a safio'i farf, rôl torri 'i ben,
a gwisgo'r clogyn amdano'n llen.

Yna, i gladdu corff y cawr,
daeth milwyr Arthur â cherrig mawr,
a'u bwrw'n bentwr mwy a mwy
rhag iddo ddrewi drwy'r holl blwy!

Roedd y cerrig yn hedfan fel eira i luwch;
aeth y pentwr mawr yn uwch ac yn uwch,
nes iddo ffurfio mynydd mawr,
a'i enw – Wyddfa Rhita Gawr

(sef “man ei gladdu” – hen air am fedd –
a Chymru dan Arthur, bellach mewn hedd.)
A dyma ninnau wedi cael dweud
sut ga'dd yr Wyddfa fawr ei gwneud!

(Bl. 4: 7fed Medi 2010)

Enfys o Lechi

Nid llwyd oedd byd chwarelwr;
dŵr Llyn Padarn yng ngwres yr haf
fel cerrig y las isaf;
ceir cicio â phaent ffres
fel y las galed
yn rhedeg fel rhuban
i gyfeiriad Llanrug;
a dynion undeb mewn siwtiau capel glas rywiog,
yn canu am yfory gwell
- os byw ac iach.

Nid llwyd oedd byd chwarelwr;
cerrig y werdd yn hollti fel dail;
helygen;
a saets;
a dynion yn troi cerrig yn fara bob mis

Nid llwyd oedd byd chwarelwr;
clwt yn disgyn yn glewt
ar bonc Garret Isa,
a gwaed yn ceulo fel y goch galed...

ysgyfaint hen gyfaill
fel y llwyd las wedi britho...

Dyma enfys o ddiodefaint... ond enfys o barhâd,
yr hen wirioneddau daearegol
sydd wrth wreiddyn ein bod,

er bod machlud dros y chwarel
fel cerrig coch y ffridd...

(Bl. 6: 7fed Medi 2010)